
**Rhif**: **9**

**Rhif y Cais / Application Number : C15-0517-04.LL**

**Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.**
**Location Plan for identification purposes only. Not to scale.**



Cais Rhif: C15/0517/04/LL
Dyddiad Cofrestru: 01/06/2015
Math y Cais: Llawn - Cynllunio
Cymuned: Llandderfel(cyn/inc. Llanfor)
Ward: Llandderfel

Bwriad: CODI TYRBIN GWYNT GYDA MESUR O 30.5M I'R HWB (48.01M I FRIG Y LLAFN), BLWCH RHEOLI A GWAITH CYSYLLTIEDIG (AIL GYFLWYNIAD O GAIS A DYNNWYD YN OL)
Lleoliad: COED Y FOEL UCHAF, FRONGOCH, GWYNEDD, LL23 7NR

**Crynodeb o'r Argymhelliad:** GWRTHOD

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae'r cais yn gais i godi tyrbin gwynt tri llafn 55kW ar dwr 30.5 medr o uchder, gyda llafnau 17.51medr a gyda cyfanswm uchder o 48.01 medr at frig y llafnau. Mae'r cais yn ail gyflwyniad o gais a dynnwyd yn ei ôl yn Ebrill 2015, mae safle y tyrbin wedi ei newid ychydig o'i gymharu a'r cais a gyflwynwyd yn flaenorol.

1.2 Mae safle'r cais wedi ei leoli ar dir uchel gerllaw ffordd yr A4212 sydd yn rhedeg fel prif linc rhwng tref Y Bala a phentref Trawsfynydd. Mae'r safle wedi ei leoli o fewn 60m i lwybr cyhoeddus ac o fewn 800 medr i eiddo preswyl Wern Fawr sydd mewn perchnogaeth ar wahân i'r ymgeisydd. Mae'r tŷ agosaf wedyn oddeutu 900 medr i ffwrdd a thai gwasgaredig ymhellach i ffwrdd. Mae ffin Parc Cenedlaethol Eryri wedi ei leoli oddeutu 750 medr i'r gorllewin. I'r gorllewin yn ogystal mae pentref Frongoch wedi ei leoli tua 1.5km i ffwrdd, ac mae'r safle tua 3.5km i'r gogledd o dref Y Bala. Mae Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Y Bala a Glannau Tegid wedi ei leoli oddeutu 2km i dde y safle, ac mae ardal eang o Dir Mynediad Agored a ddynodwyd dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (2005) wedi ei leoli o fewn 300 medr i ddwyrain y safle.

1.3 Mae tir lle bwriedir lleoli'r tyrbin yn borfa amaethyddol sydd wedi ei wella, mae peilonau trydan wedi eu lleoli tua 450 medr i'r de o'r safle. Ceir golygfeydd panoramig o fynyddoedd Y Berwyn, Aran Benllyn, Aran Fawddwy, Arenig Fawr, Arenig Fach, Carnedd y Filiast, a Foel Goch o amgylch y safle hwn.

1.4 Gellir rhannu'r bwriad i wahanol elfennau sy'n cynnwys:-

- Gosod y tyrbin ar sylfaen concrid sy'n mesur 9.2m x 9.2m a bydd angen oddeutu 126m3 o goncrid i greu sylfaen cadarn.
- Bydd gwaith adeiladu ar y safle yn cynnwys gosod ffensys diogelwch a mynedfeydd dros-dro ynghyd â gwaith peirianyddol amrywiol. Amcangyfrif i'r gwaith adeiladu gymryd oddeutu 2 fis i'w gwblhau.
- Bydd offer allanol yn cynnwys adeilad yn mesur 2.2m x 1m x 2m ar gyfer offer rheoli a bydd wedi ei leoli wrth odrau'r tyrbin ei hun.
- Cysylltir y tyrbin i'r grid cenedlaethol ger ffermdy yr ymgeisydd Sef Fferm Coed y Foel Uchaf.
- Creu a gwella trac mynediad oddi ar drac amaethyddol a choedwigaeth presennol er galluogi mynediad i safle'r tyrbin.

1.5 Mae'r manylion a gyflwynwyd gyda'r cais yn cyfeirio mai tyrbin wedi ei adeiladu gan "Endurance Wind Power" o fodel rhif "Endurance E-3120" y dymunir ei osod ar y safle. Datgan yr ymgeisydd y dewiswyd y tyrbin arbennig hwn ar sail ei gryfder i wrthsefyll tywydd garw ynghyd, a dal y gwynt yn effeithiol wrth leihau llygredd sŵn. Amcanion y bwriad hwn yw cefnogi hyfywdra'r busnes ffermio, i ddarparu cyflenwad trydan ar gyfer defnydd y fferm, i leihau ol-troed carbon y fferm, ac i hyrwyddo cynhyrchiad ynni adnewyddadwy.

1.6 Cyflwynwyd Datganiad Dylunio a Mynediad gyda'r cais yn unol â gofynion Nodyn Technegol 12 Dylunio (2014) sy'n cyfeirio at oblygiadau'r tyrbin ar sail sŵn, effeithiau economaidd, ecoleg, treftadaeth, gwerthusiad tirwedd a gweledol ac asesiad polisi.

1.7 Mae'r bwriad wedi cael ei sgrinio ar gyfer Asesiad Effaith Amgylcheddol dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999 (fel y'i diwygiwyd). Wedi asesu effaith debygol y cynnig am dyrbin 48.01 medr i frig y llafn gan ddefnyddio'r meini prawf perthnasol yng ngholofn 2 a 3 ynghyd a chanllawiau'r Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 11/99 ystyrir bod effaith y datblygiad ar yr amgylchedd yn annigonol i gyfiawnhau cyflwyno datganiad amgylcheddol gyda'r cais.

1.8 Cyflwynir y cais i'r Pwyllgor ar gais yr aelod lleol.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Unedol.

**2.2 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009 (CDUG):**

POLISI STRATEGOL 1 - MYND ATI I WEITHREDU'N RHAGOFALUS

POLISI STRATEGOL 2 – YR AMGYLCHEDD NATURIOL

POLISI STRATEGOL 3 - TREFTADAETH ADEILEDIG A HANESYDDOL

POLISI STRATEGOL 4 – SAFON DYLUNIO

POLISI STRATEGOL 9 – YNNI

POLISI STRATEGOL 17 – TWRISTIAETH

POLISI A1 ASESIADAU AMGYLCHEDDOL NEU ASESIADAU EFFEITHIAU ARALL - Sicrhau fod gwybodaeth ddigonol yn cael ei darparu gyda'r cais cynllunio ynglŷn ag unrhyw effeithiau amgylcheddol neu eraill sylweddol tebygol ar ffurf asesiad amgylcheddol neu asesiadau o effeithiau eraill.

POLISI A2 - GWARCHOD GWEAD CYMDEITHASOL, IEITHYDDOL A DIWYLLIANNOL CYMUNEDAU
Diogelu cydlyniad cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymunedau rhag niwed arwyddocaol oherwydd maint, graddfa, neu leoliad cynigion.

POLISI A3 - EGWYDDOR RAGOFALUS
Gwrthod cynigion os oes unrhyw bosibilrwydd o ddifrod difrifol neu anwrthdroadwy i'r amgylchedd neu'r gymuned os na ellir dangos heb amheuaeth ar ddiwedd asesiad perthnasol o'r effeithiau y gellir negyddu neu liniaru'r effaith.

POLISI B3 - DATBLYGIADAU SY'N EFFEITHIO AR OSODIAD ADEILAD RHESTREDIG
Sicrhau nad yw cynigion yn cael effaith ar osodiad Adeiladau Rhestredig oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn anelu i warchod cymeriad arbennig yr Adeilad Rhestredig a'r amgylchedd lleol.

POLISI B7 SAFLEOEDD O BWYSIGRWYDD ARCHEOLEGOL Gwrthod cynigion fydd yn difrodi neu ddifetha gweddillion archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol (boed yn rhai cofrestredig ai pheidio) neu eu gosodiad. Gwrthodir hefyd datblygiad fydd yn effeithio ar weddillion archeolegol eraill oni bai bod yr angen am y datblygiad yn drech nag arwyddocâd y gweddillion archeolegol.

POLISI B14 - GWARCHOD CYMERIAD TIRWEDD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
Gwarchod cymeriad tirwedd Parc Cenedlaethol Eryri drwy wahardd cynigion sy'n ymwthio'n weledol a/neu sydd wedi eu lleoli yn ansensitif ac yn anghydnaws o fewn y dirwedd.

POLISI B12 - GWARCHOD TIRWEDDAU, PARCIAU A GERDDI HANESYDDOL
Gwarchod tirweddau, parciau a gerddi ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru rhag datblygiadau a fyddai'n achosi niwed arwyddocaol i'w cymeriad, eu hedrychiad neu eu gosodiad

POLISI B20 RHYWOGAETHAU A'U CYNEFINOEDD SY'N BWYSIG YN RHYNGWLADOL A CHENEDLAETHOL Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi aflonyddwch neu niwed annerbyniol i rywogaethau a warchodir a'u cynefinoedd oni bai y gellid cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu nodweddion cydnabyddedig y safle.

POLISI B23 MWYNDERAU - Diogelu mwynderau'r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau'r ardal leol.

POLISI B33 DATBLYGIADAU SY'N CREU LLYGREDD NEU BOENDOD - Diogelu amwynderau dynol, ansawdd iechyd a'r amgylchedd naturiol neu adeiledig rhag lefelau uchel o lygredd.

POLISI C26 DATBLYGIADAU MELINAU GWYNT - Gwrthodir cynigion ar gyfer datblygiadau melinau gwynt ar safleoedd o fewn AHNE Llŷn. Mewn lleoliadau eraill, dim ond cynigion ar gyfer datblygiadau melin wynt ar raddfa fechan neu rai cymunedol neu ddomestig fydd yn cael eu caniatáu cyn belled y gellir cydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn ymwneud ag effaith ar ansawdd gweledol y dirwedd a ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol.

POLISI CH22 - RHWYDWAITH BEICIO, LLWYBRAU A HAWLIAU TRAMWY
Gwarchodir pob rhan o'r rhwydwaith beicio, llwybrau a hawliau tramwy trwy annog cynigion fydd yn eu hymgorffori yn foddhaol o fewn y datblygiad a thrwy wahardd cynlluniau i ymestyn y rhwydwaith beicio, llwybrau a hawliau tramwy. Os na fydd hyn yn bosib bydd yn rhaid gwneud darpariaeth briodol i wyro'r llwybr neu i ddarparu llwybr newydd boddhaol.

POLISI CH33 - DIOGELWCH AR FFYRDD A STRYDOEDD
Caniateir cynigion datblygu os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol sydd yn ymwneud a'r fynedfa gerbydau, safon y rhwydwaith ffyrdd presennol a mesurau tawelu traffig.

Canllaw Cynllunio Atodol (CCA): Ynni gwynt ar y Tir (2014).

CCA: Cymeriad y Dirwedd (2009).

Canllawiau Dylunio Gwynedd (2003).

Y ddogfen Astudiaeth o Sensitifrwydd a Chapasiti Môn, Gwynedd ac Eryri, (Mawrth, 2014) gan gwmni Gillespies ar ran Cyngor Sir Ynys Môn, Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol.

**2.3 Polisïau Cenedlaethol:**

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 7, Gorffennaf 2014)

Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 5 Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009).

NCT 8 Ynni Adnewyddadwy (2005).

NCT 11 Sŵn (1997).

NCT 12 Dylunio (2014).

Nodyn Cyfarwyddyd Gwybodaeth Landmap Cyfoeth Naturiol Cymru, Rhif 3 "*Landscape and Visual Assessment of Onshore Wind Turbines" (*2010).

Cylchlythyr 60/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol.

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 C15/0057/36/LL - Codi tyrbin gwynt 30.5m i'r hwb (48.01m i frig y llafnau), blwch rheoli a gwaith cysylltiedig – Cais wedi ei dynnu nol gan yr ymgeisydd yn dilyn pryderon ynglŷn a effaith weledol y datblygiad gan Swyddogion y Gwasanaeth Cynllunio – 12 Ebrill 2015.

**4. Ymgynghoriadau:**

Cyngor Cymuned/Tref: Dim ymateb.

Uned Drafnidiaeth: Tra nad oes unrhyw wrthwynebiad i'r tyrbin gwynt gan na fydd unrhyw effaith ar y rhwydwaith priffyrdd lleol unwaith y bydd wedi ei osod, mae pryder ynglŷn â'r effaith y gall y gwaith paratoi ac adeiladu ei gael ar y rhwydwaith lleol. Angen mwy o wybodaeth yn y cynllun rheoli traffig adeiladu ynglyn a pa ffyrdd y bwriedir eu defnyddio ar gyfer mynediad gan beiriannau, offer a deunydd fydd yn cael ei ddosbarthu i'r safle

Cyfoeth Naturiol Cymru: Dim gwrthwynebiad ond cynnig sylwadau ar faterion yn ymwneud a effaith weledol ac ar y tirwedd yn gyffredinol, ecoleg, a llygredd

| | |
| --- | --- |
| MOD: | Dim gwrthwynebiad. |
| Crown Castle UK: | Dim ymateb. |
| Nwy Prydain: | Dim ymateb. |
| Dwr Cymru: | Dim ymateb |
| NATS Safeguarding: | Dim ymateb. |
| Arquiva (BBC & ITV): | Dim ymateb. |
| Cyngor Bwrdeistrefol Conwy: | Dim ymateb |
| Uned Gwarchod y Cyhoedd: | Dim ymateb |
| Powersystems: | Dim ymateb. |
| Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd: | Dim ymateb. |
| CADW: | Sylwadau ynglŷn a effaith weledol niweidiol y bwriad ar olygfeydd o henebion rhestredig a Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Y Bala a Glannau Tegid. |
| Parc Cenedlaethol Eryri: | Mae APCE yn parhau a'r gwrthwynebiad i'r cais ar sail ei effaith gweledol andwyol ar osodiad y Parc Cenedlaethol a thirwedd arbennig yr ardal.<br><br>Mae'r ddau fap Parth Gweledol Damcaniaethol (ZTV) yn dangos fod y safle arfaethedig yn weladwy o rannau helaeth o fewn y Eryri, gyda'r mwyafrif or ardaloedd wedi lliwio'n wyrdd o fewn ffiniau'r Parc.<br><br>Mae gan y tyrbin botensial i gael ei weld yn erbyn mynyddoedd a bryniau Eryri o leoliadau i'r dwyrain o'r safle. Nodaf fod ffotosodiadau newydd wedi'i cyflwyno ond yn anffodus nid oes yr un ffotosodiad o'r ardaloedd mynediad eang a llwybrau cyhoeddus (e.e. GC63 177) sydd gerllaw'r tyrbin fydd yn cael ei defnyddio gan cerddwyr sy'n cael eu hystyried gyda lefel uchel o sensitifrwydd i ddatblygiadau o'r fath.<br>Ystyriaf fod fy sylwadau blaenorol parthed y ffotosodiadau a dewis y camera dal yn ddilys. |
| Uwch Swyddog Cadwraeth: | Dim ymateb. |
| Uned Bioamrywiaeth: | Argymell diwygiadau i leoliad y trac ar gyfer mynediad i'r safle a'r trywydd ar gyfer y cysylltiad i'r grid cenedlaethol, ac arolwg pellach ar gynefinoedd ar y safle. Yn ogystal yr angen am blannu coedlan newydd yn lle y coed a gollir yn sgil y gwaith o adfer trac drwy goedlan bresennol. Cynnig amodau ar gyfer gwarchod adar pe caniateir y cais. |

Swyddog Coed: Yn ôl y cynlluniau sydd wedi eu cyflwyno (LP1 1 :20,000) mae'r cebl trydan yn rhedeg tuag at y fferm drwy, neu o bosib yn agos at ardal o goed aeddfed. Nid oes cynllun digon manwl wedi ei gyflwyno i ddangos union drywydd y llinell drydan yn yr ardal yma mewn perthynas a'r coed. Mae potensial i wreiddiau coed gael eu dinistrio wrth gladdu'r cebl. Bydd angen cynllun manylach o'r ardal yma cyn gallu penderfynu ar y cais. Os yw'r cebl yn agos at goed mi fydd rhaid cyflwyno datganiad dull yn egluro sut y bydd effaith niweidiol i wreiddiau'r coed yn cael ei osgoi neu liniaru.

Cefn Gwlad a Mynediad: Angen sicrhau fod y datblygwr yn glynu at y pellter gwahanu isafswm a nodir yn Nhabl 5 o Bennod 9.1 Asesiad Cymeriad Tirlun Coed y Foel a gyflwynwyd gyda'r cais er mwyn cydymffurfio gyda canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Nodyn Cyngor Technegol 8. Os bydd unrhyw effaith ar Lwybr Cyhoeddus Rhif 177 gofynnir i'r datblygwr gysylltu gyda'r Uned Hawliau Tramwy Cyhoeddus y Cyngor dri mis cyn cychwyn y gwaith adeiladu er mwyn sicrhau fod defnyddwyr y llwybr yn cael eu hamddiffyn.

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybudd yn y wasg, ar y safle a hysbyswyd trigolion cyfagos. Mae'r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben. Derbyniwyd gwrthwynebiad yn gwrthwynebu ar y cais ar sail canlynol:

- Golygfeydd o fewn ardal eang o du fewn i Barc Cenedlaethol Eryri
- Gosodiad mynyddoedd a bryniau Parc Cenedlaethol a welir o leoliadau i ddwyrain y safle.
- Effaith ar fwynhad defnyddwyr tir agored a llwybrau cyhoeddus o dirwedd y Parc Cenedlaethol
- Ffotosodiadau (Photomontages) ddim i raddfa nac yn ddarlun cywir o effaith y tyrbin.

## 5. Ystyriaethau Cynllunio Perthnasol:

### Egwyddor y datblygiad

5.1 Mae NCT 8 yn ystyried cyfraniad melinau gwynt ar gyfer cynhyrchu trydan fel gofyn cenedlaethol ac yn un o'r brif amcanion polisi ynni'r Cynulliad. Mae polisi cenedlaethol yn adlewyrchu egwyddor ganolog datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru, a'r rôl y gall ynni adnewyddadwy, ac yn enwedig ynni gwynt, ei chyflawni er mwyn lleihau newid hinsawdd, gyda'r nod o gyflawni 40% o ostyngiad mewn nwyon tŷ gwydr erbyn 2020 Mae'n amlwg y byddai datblygiad tyrbin o'r fath yn creu cyfraniad bychan tua targedau cynhyrchu ynni adnewyddol sydd wedi eu pennu yn genedlaethol.

5.2 Nid oes unrhyw Ardaloedd Chwilio Strategol wedi eu hadnabod o fewn ffiniau sir Gwynedd oherwydd agosrwydd i ardaloedd dynodedig cenedlaethol, fel Parc Cenedlaethol Eryri a'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), felly mae'n rhaid asesu unrhyw ddatblygiad ar sail polisïau cynllun datblygu lleol sydd yn cyfyngu cynlluniau i raddfa fach, gymunedol neu ddomestig.

5.3 Mae NCT 8 hefyd yn nodi'r bod angen sicrhau nad yw datblygiadau yn effeithio ar AHNE a Pharciau Cenedlaethol, fodd bynnag mae hefyd yn nodi y gallai cynlluniau ar raddfa fechan neu ar raddfa ddomestig fod yn dderbyniol yn amodol ar yr holl ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill.

5.4 Mewn egwyddor mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gefnogol o gynlluniau i greu egni adnewyddol drwy ddull ynni gwynt. Fel y nodwyd uchod, mae nifer o bolisïau o fewn Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (CDUG) sy'n berthnasol wrth ystyried y cais. Y prif bolisi i'w ystyried wrth asesu egwyddor y datblygiad yw polisi C26 o'r CDUG. Mae'r polisi yn cynnig rhagdybiaeth yn erbyn melinau gwynt oddi fewn yr AHNE, ac mewn lleoliadau eraill mae'n datgan mai dim ond datblygiadau ar raddfa fechan, gymunedol neu ddomestig fydd yn cael caniatâd os gellid cydymffurfio gyda'r meini prawf.

5.5 Mae'r tyrbin sydd destun y cais hwn yn dyrbin 55kw ac yn mesur 30.5 medr i'r hwb (nacelle) gyda chyfanswm uchder o 48.01 medr at frig y llafnau. Noda polisi C26 fod datblygiadau melinau gwynt cymunedol neu ar raddfa fach fel datblygiadau sydd a gallu cynhyrchu llai na 5MW. Gan gymryd hyn i ystyriaeth, o ran egwyddor ystyrir fod tyrbin o ran graddfa'r ynni a gynhyrchir y byddai'n eu creu cyfystyr, a thyrbin a'r raddfa fechan, sydd o ran egwyddor y math o ddatblygiad all fod yn dderbyniol dan bolisi C26. Ond bydd rhaid asesu'r cais yn ofalus yn erbyn pwyntiau un i saith o feini prawf a gynhwysir ym mholisi C26, polisïau tirwedd, cadwraeth, mwynderau a pholisïau cenedlaethol.

5.6 Derbyniwyd datganiad dylunio a mynediad ynghyd a ffotosodiadau fel rhan o'r cais. Nid oes asesiad o effaith arwyddocaol dros ardal helaeth nac ar faint yr effaith ac ansawdd y dirwedd. Mae ffotosodiadau yn gallu bod yn ddefnyddiol iawn wrth asesu effaith gweledol tyrbinau gwynt ond mae'n rhaid ymdrin y wybodaeth yn rhagofalus a rhoi pwysau priodol iddynt gan gofio mai gwybodaeth i gefnogi'r cais yw'r wybodaeth yma . Rhaid cymryd i ystyriaeth dull a chywirdeb a defnyddiwyd i greu'r darluniau, y ffaith nad yw yn gallu darlunio effaith strwythur symudol a hefyd mae amlygrwydd y tyrbin yn dibynnu yn sylweddol ar olau ac amgylchiadau atmosfferig. Mae ymateb i ymgynghoriad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn nodi fod safon a lleoliadau tynnu y ffotosodiadau yn annigonol yn ogystal.

5.7 Pan yn asesu ceisiadau tyrbinau gwynt mae'n ofynnol edrych yn ofalus ar effaith cronnus tyrbinau gwynt yn yr ardal yma a sicrhau nad yw tyrbinau yn cael ei ganiatáu mewn lleoliadau anaddas / sensitif ac nad oes effaith gronnus annerbyniol. Er fod ceisiadau ar gyfer tyrbinau gwynt wedi ei caniatáu o fewn ward Llandderfel yn ddiweddar, nid yw'r tyrbinau hyn yn effeithio ar olygfeydd a'r tirwedd yn yr un ardal a'r safle hwn. Ar hyn o bryd ni ystyrir fod effaith cronnus yn creu pryder yn yr ardal yma eto ond nid yw hyn yn goresgyn rhannau agweddau eraill o'r datblygiad sydd yn annerbyniol nac yn rheswm i ganiatáu cais

**Mwynderau Gweledol:**

5.8 Mae safle'r cais mewn ardal o borfa fynyddig uwchben dyffryn crog rhewlifol bychan. Mae gwybodaeth LANDMAP (2010) yn rhoi gwerth uchel i'r dirwedd o

safbwynt ystyriaethau gweledol a synhwyrol ac isel o safbwynt cynefinoedd ond gwerth uchel o safbwynt y dirwedd hanesyddol a'r dirwedd ddiwylliannol a canolig o agwedd daeareg. Mae Asesiad Sensitifrwydd a Chynhwysedd Tirwedd Ynys Mon, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri (Mawrth, 2014) yn waith a gynhyrchwyd gan Gwmni Gillespies ar ran yr awdurdodau hyn ac mae'n asesu sensitifrwydd a chapasiti'r tirwedd i ymdopi gyda mathau penodol o ddatblygiadau (gan gynnwys melinau gwynt). Mae'r Asesiad hwn yn cadarnhau fod safle'r cais o fewn Ardal G12 "Llandderfel", ac yn disgrifio'r tirwedd yr ardal yn gyffredinol fel un o raddfa ganolig, sydd a chymeriad tirwedd wledig a thonnog , sydd a sensitifrwydd canolig i uchel i ddatblygiadau ynni gwynt. Ymhellach mae yn datgan fod y tirwedd yn cael ei ddylanwadu mewn mannau gan ddatblygiadau modern megis gwifrau trydan. Mae'r asesiad yn datgan nad oes capasiti ar gyfer datblygiadau ynni gwynt pellach o fewn yr ardal hon (ag eithrio datblygiadau gwynt ar raddfa fychan a domestig eu natur, sydd wedi eu lleoli ar safleoedd sydd a perthynas yn dda i anheddiad / adeiladau sy'n bodoli eisoes)

5.9 Byddai'r strwythur arfaethedig yn uchel ac o waith dyn (*manmade*) ac yn sefyll yn arunig a'r dir uchel. Mae'r safle i'w weld o amryw o safbwyntiau yn yr ardal gyfagos a thu hwnt, byddai'r tyrbin i'w weld yn arbennig o weladwy tra yn teithio ar hyd y A4212 i lawr y dyffryn i gyfeiriad y safle o'r gorllewin. Byddai hyn oherwydd ei leoliad uchel a chwbl amlwg ar y nenlinell o olygfeydd o bell ac agos oddi fewn ac oddi allan y Parc Cenedlaethol. Ystyrir felly y byddai'r effaith ar fwynderau gweledol yr ardal yn sylweddol. Er fod peilonau trydan wedi eu lleoli i de y safle, ni ystyrir y byddai hyn yn lleddfu effaith niweidiol y datblygiad ar gymeriad gwledig a thirwedd yr ardal gan ei fod yn strwythur sylweddol ac yn un symudol sydd yn sefyll yn arunig. Er nad yw'r ffotosodiadau or golygfannau (*viewpoint*) a ddarparwyd ar y cais yn gynhwysfawr, mae yn amlwg iawn y byddai'r tyrbin yn weladwy iawn o olygfannau 2 ,3, 4, 5 a 6 a ddarparwyd gan yr ymgeisydd.

5.10 Fel a nodwyd eisoes mae safle'r cais yn agos at ffin Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'n amlwg fod y tirwedd yn yr ardal hon yn debyg iawn i'r tirwedd a welir o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol, ac o ganlyniad rhaid ystyried y tirwedd hwn yn rhan arwyddocaol o osodiad y Parc Cenedlaethol. Mae polisi B14 y Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd hefyd yn ystyriaeth ar gyfer agwedd hon o'r cais. Mae'r polisi yn rhagdybio yn erbyn datblygiadau sy'n ymwthio'n sylweddol yn weledol ac sydd wedi ei lleoli yn ansensitif ac yn anghydnaws o fewn y tirwedd. Amcan polisi B14 yw sicrhau fod y tir sydd o gwmpas y Parc yn cael ei warchod rhag datblygiadau anaddas neu ddi-lun. Rhaid sicrhau na fydd datblygiadau newydd yn amharu ar fwynderau gweledol a thirwedd y parc cenedlaethol. Rhaid i unrhyw ddatblygiad a ganiateir ger ffin y Parc weddu i'r dirwedd a bydd rhaid ei ddylunio a'i lleoli fel ei fod yn llesol i olwg yr ardal.

5.11 Mae gwrthwynebiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r gwrthwynebiad arall a dderbyniwyd yn nodi y byddai effaith ar olygfeydd o fewn ffiniau'r Parc. Mae'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn cyfeirio at effaith y datblygiad ar fwynhad defnyddwyr y Parc Cenedlaethol, ac oherwydd amlygrwydd y datblygiad o fewn y tirlun ac o ardal eang iawn o du fewn y Parc ystyrir y byddai yn amharu yn sylweddol ar fwynhad defnyddwyr y Parc Cenedlaethol. Mae golygfeydd clir o'r safle o ardal eang iawn o'r Parc ac ystyrir y bydd y bwriad felly yn gwrthdaro gyda polisi B14 o'r CDUG, yn ogystal a maen prawf 1 a 3 o bolisi C26 o'r CDUG sydd yn gwrthsefyll datblygiadau ynni gwynt ar raddfa fechan os ydynt yn cael effaith niweidiol sylweddol ar osodiad y Parc a'r tirwedd yn gyffredinol.

5.12 Mae'r asesiad 'LANDMAP' yn cydnabod golygfeydd deniadol yr ardal sydd yn gyffredinol heb eu difetha gan nodweddion estron sydd yn difrïo ac yn rhoi ymdeimlad o le cryf. Oherwydd y berthynas agos gyda'r Parc, ystyrir buasai strwythur o'r raddfa yma ac sydd hefyd yn symudol yn y lleoliad hwn, yn amharu'n sylweddol ac yn ymwthiol ar fwynderau gweledol a thirwedd y Parc Cenedlaethol.

5.13 Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn datgan fod yna ddyletswydd i Awdurdodau Cynllunio Lleol roi sylw i ddiben Parciau Cenedlaethol yr un mor gymwys i'r gweithgareddau sy'n effeithio ar yr ardaloedd hyn, p'un a yw'r gweithgareddau hynny y tu mewn neu'r tu allan i'r ardaloedd a ddynodwyd. Fel a nodwyd eisoes nid yw'r safle tu fewn i'r Parc ond ystyrir fod siâp, ffurf a chymeriad y tirlun yn weledol gysylltiedig. Buasai tyrbin yn y lleoliad arfaethedig yn amharu ar y tirlun, tynnu sylw oddi ar y Parc ac yn amharu ar ddynodiad y tir sydd o bwysigrwydd rhyngwladol.

5.14 Byddai golygfeydd clir di rwystr o'r tyrbin mewn rhai mannau ar hyd yr hawliau tramwy cyhoeddus ac yn weladwy mewn mannau agored gyda'r llafnau yn ymddangos yn ormesol ac yn anghydweddol gyda'r tirlun ehangach. Mae'r ymgeisydd yn ei Asesiad Gweledol a Thirlun (Landscape and Visual Assessment) yn cydnabod y byddai y tyrbin i'w weld yn hollol glir o'r llwybr cyhoeddus rhif 177 – Llandderfel sydd o fewn oddeutu 60 medr i'r safle, ac y byddai sensitifrwydd uchel i olygfeydd panoramig a geir o'r llwybr hwn. Credir, felly, byddai'r tyrbin nid yn unig yn aflonyddu ar gymeriad tawel a llonydd y tirlun lleol ond byddai hefyd yn amharu'n andwyol ar y tirlun a'r dirwedd ehangach ar gyfer defnyddwyr y llwybr cyhoeddus uchod a'r rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus eraill a geir yn lleol. Ystyrir fod y bwriad felly yn gwbl groes i Bolisi B14 a maen prawf 1 a 3 o Bolisi C26 y CDU.

5.15 Yn ychwanegol i'r tyrbin, mae'r bwriad hefyd yn cynnwys manylion i ail wynebu trac mynediad presennol a chreu rhan o drac mynediad newydd i safle'r tyrbin gyda gwastraff llechi. Mae'r datgan dyluniad a mynediad hefyd yn datgan y bwriedir gosod cabinet rheoli ar waelod y tyrbin. Mae'r elfennau yma o'r cais yn nodweddion disgwylir gweld gyda datblygiad am dyrbin ac i leihau unrhyw effaith gweledol mae'n bosib gosod amodau cynllunio. Ystyrir fod elfen yma o'r cais yn cwrdd â maen prawf 2 o bolisi C26 o'r CDUG.

**Materion Bioamrywiaeth:**

5.16 Fel a nodwyd eisoes mae'r tir lle bwriedir lleoli'r tyrbin yn borfa wedi ei gwella, nid yw'r tir wedi ei ddynodi gydag unrhyw werth bioamrywiaeth arbennig ac nid oes unrhyw wrthwynebiad i'r cais wedi eu derbyn gan Uned Bioamrywiaeth y Cyngor na Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn nhermau datblygu mae'r cyfnod o osod y tyrbin yn broses sydyn ac mae ôl troed y datblygiad yn eithaf bychan. Mae Uned Bioamrywiaeth a Swyddog Coed y Cyngor wedi gofyn am gamau i gydadfer (*compensate*) effaith y datblygiad, mae'r ymgeisydd wedi cytuno i'r rhain ynghyd a newidiadau i safle'r trac mynediad a cwrs y cysylltiad i'r grid cenedlaethol er mwyn lleihau unrhyw effaith posib y datblygiad ar fioamrywiaeth. Yn ogystal mae'r Uned Fioamrywiaeth yn cynnig fod amodau perthnasol ynglŷn a adar nythu a proses o gofnodi unrhyw niwed i adar. Ystyrir felly yn amodol ar gydymffurfio gyda anghenion bioamrywiaeth na fyddai y bwriad yn gwrthdaro gyda cynnwys polisi B20 o'r CDUG a'r paragraffau perthnasol o NCT 5 – Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009).

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.17 Mae Polisi B23 o GDUG yn pwysleisio'r angen o nid yn unig diogelu mwynderau gweledol ond hefyd yr angen i ddiogelu mwynderau preswyl a chyffredinol. Datgan y polisi y gwrthodir cynigion fyddai'n achosi niwed arwyddocaol i fwynderau'r gymdogaeth leol. Yn yr un modd mae Polisi CH33 yn datgan gwrthodir cynigion fydd yn achosi niwed arwyddocaol i ansawdd iechyd, diogelwch neu amwynderau dynol oherwydd lefelau uchel o lygredd a sŵn os na ellir eu rheoli'n ddigonol trwy amodau cynllunio.

5.18 Mae safle'r bwriad o fewn 800 medr i eiddo preswyl Wern Fawr sydd mewn perchnogaeth ar wahân i'r ymgeisydd. Mae'r tŷ agosaf wedyn oddeutu 900 medr i safle'r cais a thai gwasgaredig ymhellach i ffwrdd. Derbyniwyd asesiad sŵn syml a sylfaenol iawn gyda'r cais ar gyfer y math yma o dyrbin (yr Endurance E-3120) Pe bai'r cais yn cael ei ganiatáu mae'n bosib goresgyn y pryderon hyn drwy gynnwys amodau mesuriadau lliniaru perthnasol o dan ofynion ETSU-R-97, fodd bynnag, oherwydd gwrthwynebiad polisi sylfaenol i'r bwriad ni thrafodwyd yr angen i ymgymryd a'r fath asesiad gyda'r ymgeisydd gan na fyddai'n debygol o oresgyn y gwrthwynebiad sylfaenol eraill yn ymwneud a chodi tyrbin gwynt ar y safle arbennig hwn.

5.19 Mae canllawiau cenedlaethol yn datgan bod problemau taflyd cysgod o'r tyrbin yn annhebygol o fod yn broblem dros bellteroedd o 180m felly, nid oes pryder sylweddol am effaith o'r fath ar anheddau cyfagos yn yr achos yma. Ni ystyrir ychwaith y byddai'r tyrbin yn debygol o greu ymyrraeth electromagnetig â systemau trosglwyddo neu dderbyn presennol, ac nid oedd unrhyw wrthwynebiad gan yr ymgynghorwyr statudol a ddarparodd ymateb i ymgynghoriad ar y cais. Ystyrir felly y byddai'r datblygiad yn cydymffurfio a cynnwys polisïau B23 a B33 o'r CDUG.

5.20 Bydd y tyrbin yn uchel ac yn amlwg iawn o'r llwybrau cyhoeddus gerllaw. Mae'r Uned Cefn Gwlad a Mynediad yn bryderus i sicrhau y bydd llwybr cyhoeddus rhif 177 Llandderfel yn cael ei warchod yn ystod a hefyd ar ddiwedd y datblygiad yma a bydd angen trwydded i dyllu ar hyd neu ar draws y llwybr. Er y pryder, nid oes gwrthwynebiad ar y sail yma.

**Materion Cadwraeth ac Archeolegol :**

5.21 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi pwysigrwydd o warchod henebion a'u gosodiad yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ceisiadau cynllunio hyd yn oed os yw'r heneb dan sylw yn gofrestredig ai peidio. Mae paragraff 17 o Gylchlythyr 60/96, Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archaeoleg yn ymhelaethu drwy egluro bod hyn yn golygu rhagdybiaeth yn erbyn datblygiadau fyddai'n golygu newid sylweddol neu achosi niwed, neu a fyddai'n cael effaith sylweddol ar osodiad olion gweladwy. Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn egluro bod gan Awdurdodau Cynllunio Lleol ddyletswydd i ddiogelu parciau a gerddi a'u lleoliadau cynnwys yn y rhan gyntaf o'r Gofrestr Tirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru.

5.22 Mewn ymateb i ymgynghoriad mae CADW yn datgan fod y lleoliad yng nghyffiniau henebion rhestredig Caer Pen-Ucha'r-Llan a Chaer a Gwersyll Rhufeinig Llanfor sydd wedi ei lleoli oddeutu 4km o safle'r cais, ac maent yn datgan y byddai llafnau y tyrbin yn weladwy o'r cyfeiriad hwn ac yn torri'r nenlinell ar olygfeydd o safleoedd yr henebion hyn. Serch hynny mewn ymateb i ymgynghorid maent yn datgan oherwydd y pellter rhwng yr heneb a safle'r tyrbin na fydd ei effaith ond yn fychan.

Mae ymateb CADW yn ogystal yn datgan fod y ffotosodiadau yn dangos y bydd effaith eang iawn ar olygfeydd o Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Y Bala a Glannau Tegid yn sgil y bwriad. Serch hynny, mae eu ymateb yn cydnabod na fyddai yr effaith ond yn lleol. O ystyried hyn ni ystyrir felly y bydd effaith niweidiol sylweddol ar henebion rhestredig a'r ardal dirwedd hanesyddol a nodir uchod. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cais gan Wasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd.

5.23 Mae'r safle wedi ei lleoli o fewn 900m i adeiladau rhestredig gradd II sef Ty Fferm Wern Fawr, Ty Fferm Llaithgwm, ynghyd a stablau a chertws ar Fferm Llaithgwm. Yn ogystal mae amryw o adeiladau rhestredig eraill ymhellach i ffwrdd o'r safle. Mae Adran 66(1) o'r Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) yn datgan y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol roi sylw arbennig i ddymunoldeb o gadw/diogelu gosodiad adeilad rhestredig. Ni dderbyniwyd unrhyw sylw gan Uwch Swyddog Cadwraeth y Cyngor. Fodd bynnag, o ystyried gosodiad y tyrbin mewn perthynas a'r dynodiadau statudol hyn ynghyd a thopograffi'r dirwedd a'r llystyfiant aeddfed sy'n golygu ceir golygfeydd ysbeidiol o'r tyrbin, ni chredir bydd y bwriad yn cael effaith andwyol sylweddol ar integredd y dynodiadau hyn yn unigol. Ystyrir felly fod y bwriad yn cydymffurfio gyda polisïau B3, B7 a B12 o Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd.

**Trafnidiaeth**

5.24 Mae'r cais yn cynnwys bwriad i ddefnyddio mynediad presennol coedwigaeth i goedlan oddi ar ffordd sirol dosbarth 3 ac mae'r datganiad dylunio a mynediad yn datgan bydd angen nifer o gerbydau a pheiriannau yn ystod y gwaith paratoi ac adeiladu'r tyrbin sy'n amrywio mewn pwysau o geir a faniau ysgafn i gerbydau trwm megis craen 80 tunnell. Mewn ymateb i'r bwriad dywed yr Uned Drafnidiaeth nad oes gwrthwynebiad i'r cais ar sail diogelwch ffyrdd ond fod angen gwybodaeth ychwanegol ynglyn ac ymhelaethiad o rai manylion a gynhwysir yn y Cynllun Rheolaeth Traffig Adeiladu a gyflwynwyd. Fodd bynnag, oherwydd gwrthwynebiad polisi sylfaenol i'r bwriad ni thrafodwyd yr angen i gario allan y fath asesiad gyda'r ymgeisydd gan na fyddai'n debygol o oresgyn y gwrthwynebiad sylfaenol sy'n ymwneud a chodi tyrbin gwynt ar y safle arbennig hwn. Ni chyflwynwyd gwrthwynebiad gan yr Uned Hawliau Tramwy er y dymunir ymgynghoriad petai unrhyw effaith ar lwybr cyhoeddus rhif 177 - Llandderfel gerllaw. Nodir yn ogystal fod y llwybr ar gyfer gwasanaethu safle'r tyrbin yn dilyn llwybr cyhoeddus rhif 144 – Llandderfel. Serch hynny ystyrir y byddai'r datblygiad yn medru bod yn dderbyniol ar sail diogelwch ffyrdd pe derbynnir manylion angenrheidiol gan yr Uned Drafnidiaeth y Cyngor er cymeradwyaeth ac felly y gallai y bwriad fod yn dderbyniol ar sail gofynion Polisi CH33 o GDUG yn y pen draw.

**Buddion economaidd**

5.25 Mae'r bwriad yn cael ei gyflwyno fel bwriad a fyddai'n darparu cyflenwad trydan ar gyfer gweithgareddau'r fferm ac yn fenter arallgyfeirio a fyddai'n helpu sicrhau dyfodol hyfyw i'r daliad amaethyddol ei hun sydd o faint 500 erw. Mae paragraff 7.15.1 a 2 CCA: Ynni Gwynt ar y Tir (2014) yn berthnasol yng nghyd-destun y cais hwn drwy ddatgan bod yr egwyddor o sefydlu prosiect ynni adnewyddadwy, megis melinau gwynt, yn weithgaredd arallgyfeirio dilys ar fferm yn ddarostyngedig i feini prawf Polisi C26. Fodd bynnag, nid yw'r CCA yn derbyn y byddai pob ffurf o ddatblygiad tyrbin gwynt ar dir amaethyddol yn dderbyniol fel cynllun arallgyfeirio ar ffermydd ac mae'n cynnig cyfres o feini prawf ym mharagraff 7.15.2 sy'n ofynnol i gynlluniau o'r fath eu cyrraedd.

5.26 Mewn perthynas â'r cais hwn ystyrir y meini prawf hyn yn eu tro:-

- O'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn y datganiad dylunio a mynediad prif fenter yr ymgeiswyr yw ffermio a byddai'r tyrbin wynt yn cael ei godi ar dir amaethyddol y daliad.

- Byddai'r tyrbin wedi ei leoli oddeutu 660m o brif ffermdy Coed y Foel Uchaf - ni ystyrir y byddai cydberthynas ffisegol rhwng y tyrbin ei hun a'r adeiladau fferm o safbwynt ei faint, graddfa a'i leoliad.

- Mae'r datganiad dylunio a mynediad yn egluro pe caniateir y cais hwn y buasai o fudd i'r ymgeisydd mewn nifer o ffyrdd gwahanol: (i) buasai'n lleihau'r ddibyniaeth ar fewnforio trydan o'r grid cenedlaethol: (ii) bysai'n creu incwm sefydlog i'r busnes amaethyddol drwy dderbyn taliadau gwarantedig o allforio trydan o dan y "tariff bwydo i mewn" ac yn sicrhau hyfywdra hirdymor y busnes yn y dyfodol a: (iii) rhan bwysig o arallgyfeirio ar y fferm sydd yn gwneud y daliad amaethyddol yn fwy cynaliadwy.

- Mae'r datganiad dylunio a mynediad yn datgan bod gofynion cyflenwad trydan blynyddol y fferm yn 489,240 kWh sy'n cynnwys 6,000 litr o olew sydd yn cyfateb i 66,000 kWh o drydan. Rhagwelir bydd allbwn blynyddol y tyrbin gwynt yn 400,000 kWh a bydd angen cyflenwad o 331,960 kHw o drydan i fod yn garbon niwtral. Mae hyn yn cadarnhau fod capasiti cynhyrchu'r tyrbin yn gymesur ag angenion ynni'r fenter ffermio.

5.27 Mae'r cais yn datgan y disgwylir ymhen 7-9 mlynedd o godi'r tyrbin bydd y costau o'i osod a'i gysylltu i'r grid cenedlaethol wedi eu talu'n gyflawn ac o'r adeg yma ymlaen rhagwelir bydd yr ymgeiswyr yn derbyn buddiant ariannol o'r prosiect drwy werthu trydan i'r grid ei hun. Nid oes urnhyw fanylion i law i gadarnhau os fyddai'r tyrbin wedi'i gysylltu â'r grid trydan drwy fesurydd trydan y fferm fel y gellir os dymunir ddefnyddio'r trydan a gynhyrchir ar y safle, yn hytrach na bod 100% o'r trydan yn cael ei allforio yn uniongyrchol i'r grid cenedlaethol.

5.28 Gan ystyried yr asesiad uchod ynghyd a'r wybodaeth a gyflwynwyd gyda'r cais ar sail y datganiad dylunio a mynediad rhagdybir (ymhen 7-9 mlynedd) bydd elfen sylweddol o'r fenter at ddibenion masnachol. Tra fod peth o'r wybodaeth a gyflwynwyd yn rhoi cyfiawnhad i'r datblygiad fel modd o arallgyfeirio nid yw'r bwriad fel y'i cyflwynwyd yn cydymffurfio a'r holl feini prawf uchod sydd wedi eu cynnwys yn y ddogfen CCA: Ynni Gwynt ar y Tir (2014).

**Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus**

5.29 Credir bod yr asesiad uchod wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r ymatebion a dderbyniwyd o ganlyniad i'r hysbysebiad cyhoeddus a dderbyniwyd.

## 6. Casgliadau:

6.1 Oherwydd natur datblygiadau o'r math yma mae'n anodd iawn i'w integreiddio gyda'r dirwedd ac felly wrth ystyried ceisiadau mae'n rhaid felly pwyso a mesur yn ofalus ei effaith gweledol, statws y tirwedd, buddiannau economaidd a'r nod cenedlaethol o hybu datblygiadau sydd yn creu ynni adweinyddol.

6.2 Wedi pwyso a mesur y bwriad yng nghyd-destun y polisïau a drafodwyd uchod, asesu effaith y tyrbin ar y tirlun yn erbyn strategaethau hybu ynni adnewyddol ynghyd ac ystyried yr ystyriaethau materol eraill ystyrir nad yw'r bwriad yn ei ffurf bresennol yn cwrdd â gofynion holl bolisïau cynllunio uchod. Ystyrir y byddai strwythur fyddai'n 48.01m ar ei bwynt uchaf yn nodwedd estron, amlwg, uchel a gormesol gan amharu ar y nenlinell yn ogystal â chreu ardrawiad ansensitif ar orwel pell ac agos y golygfeydd oddi mewn ac oddi allan y Parc Cenedlaethol.

6.3 O gloriannu'r uchod ac wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r gwrthwynebiadau a'r holl faterion cynllunio perthnasol ystyrir nad yw'r bwriad yn faterol wahanol i'r cais gwreiddiol a dynnwyd yn ôl. Ystyrir nad yw'n cwrdd â gofynion y polisïau uchod ac y byddai'r tyrbin yn cael effaith sylweddol arwyddocaol ar nodweddion a chymeriad arbennig y Parc Cenedlaethol.

## 7. Argymhelliad:

7.1 Gwrthod – rhesymau –

Ystyrir y byddai natur estron a graddfa'r tyrbin yn ogystal a'i leoliad ansensitif ac anghydnaws o fewn y dirwedd yn ymwthio'n sylweddol yn weledol yn y dirwedd o gwmpas gan gael effaith niweidiol ar olygfeydd amlwg a phanoramig sydd gan y cyhoedd i mewn, allan, ac ar draws y tirwedd o gwmpas sy'n cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri a chefn gwlad agored a thrwy hynny niweidio nodweddion a chymeriad arbennig Parc Cenedlaethol Eryri yn groes i Bolisïau B14 a C26, a Pholisïau Strategol 2 a 9 o Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd (2009), Canllawiau Cynllunio Atodol: Ynni Gwynt ar y Tir (2014), Pholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 7, Gorffennaf 2014) a Nodyn Cyngor Technegol 8:Ynni Adnewyddadwy (2005).